**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**01/05/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2001-0025 Ceiswyr lloches/ Asylum Seekers

02 May 2001 Raised by Cynog Dafis, Helen Mary Jones

No Subscribers

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio'r arferiad o gaethiwo ceiswyr lloches diniwed mewn sefyldiadau penyd yng Nghymru neu unrhywle arall yn y byd, ac yn erfyn ar Y Swyddfa Gartref y Deyrnas Gyfunol i newid ei pholisi yn y cyswllt hwn.

The National Assembly of Wales condemns the practice of confining innocent asylum seekers to penal institutions in Wales or anywhere else in the world and calls upon the UK Home Office to change its policy on this regard.

# OPIN-2001-0024 Condemnio'r ffordd y mae George Bush wedi cefnu ar Gytundeb Kyoto/ Condemnation of George Bush's dismissal of the Kyoto Agreement

02 May 2001 Raised by Mick Bates, Richard Edwards, Phil Williams

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn condemnio'r Arlywydd George Bush am ei anwybodaeth o'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar Gymru a'r byd ehangach.*

*Fel prif gynhyrchwr allyriannau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai'r UDA wneud ymdrech bendant i roi'r amgylchedd o flaen busnes mawr, y blaned o flaen budd, trwy ymrwymo i sicrhau mwy o ostyngiad ar allyriannau CO2 na'r lefel a gyhoeddwyd yng nghytundeb Kyoto.*

*This Assembly condemns President George Bush for his ignorance on environmental issues that impact on Wales and the wider World.*

*As the major producer of harmful emissions into the environment, this Assembly believes that the USA should make a concerted effort to put the environment ahead of big business, the planet ahead of profit, by committing itself to cutting CO2 emissions over and above that stated in the Kyoto agreement.*

## OPIN-2001-0023 Ymgyrch i godi cerflun i ddathlu bywyd Ivor Novello/Campaign to erect a statue to celebrate the life of Ivor Novello

30 Apr 2001 Raised by Gareth Jones

No Subscribers

Mae Cunulliad Cenedlaethol Cymru'n cefnogi'r ymgyrch i godi cerflun i goffau Ivor Novello, y dramodydd a'r cerddor o Gaerdydd. Rydym yn cydnabod ei gyfraniad i gerddoriaeth ar y llwyfan rhyngwladol ac i fywyd diwylliannol ein cenedl.

The National Assembly for Wales supports the campaign to erect a statue to commemorate Ivor Novello, the playwright and musician from Cardiff. We acknowledge his contribution to music on the international stage and to our nations cultural life.

## OPIN-2001-0022 Cefnogaeth i'r 'Merthyr Metrig'/ Support for the 'Metric Martyr'

30 Apr 2001 Raised by David Davies

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn lleisio'i gefnogaeth lawn i'r masnachwr o Sunderland, Steven Thoburn, ac mae'n gresynu at y penderfyniad i erlyn y masnachwr hwn am arfer ei hawl i gyflenwi nwyddau i'w gwsmeriaid mewn mesurau imperial. Mae'r achos hwn wedi amlygu'r bygythiad i*

*ddemocratiaeth a masnach rydd yng Nghymru o du'r Comisiwn Ewropeaidd, sydd, ym mhob gorchymyn newydd, yn tanseilio hawliau sofran ein cenedl.*

*This Assembly voices its full support for the Sunderland trader Steven Thoburn and deplores the decision to convict this trader for exercising the right to supply his customers in imperial measures. This case has highlighted the treat to democracy and free trade in Wales posed by the European Commission, who, with each new dictate, undermine the sovereign rights of our nation.*

## OPIN-2001-0020 Senedd Ieuenctid Cymru/Welsh Youth Parliament

04 Apr 2001 Raised by Janet Ryder

7 Subscribers:

Brian Hancock
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Cynog Dafis
Owen John Thomas MA
Janet Davies
Elin Jones
Geraint Davies

Mae'r Cynulliad hwn yn credu bod gan bobl ifanc Cymru gyfraniad allweddol i'w wneud wrth wella'r gymuned yng Nghymru ac mae'n cefnogi datblygu Senedd Ieuenctid Cymru, dan arweiniad pobl ifanc Cymru a chyda chefnogaeth Dyfodol Ieuenctid. Dylai'r sefydliad hwn roi'r cyfle i bobl ifanc Cymru ddod yn ddinasyddion brwd a dylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth, sy'n effeithio arnynt.

This Assembly believes that young people in Wales are key to making a better society in Wales and supports the development of a Welsh Youth Parliament, led by young people in Wales and supported by Dyfodol Ieuenctid. This organisation should offer young people in Wales the opportunity to become active citizens and impact on government policies, which affect them.

## OPIN-2001-0019 Gwrthsefyll treialon GM/Resisting Gm Trials

04 Apr 2001 Raised by Mick Bates, Glyn Davies, Jocelyn Davies, Richard Edwards

9 Subscribers:

Lorraine Barrett
Gareth Jones
Brian Hancock
Janet Ryder
Cynog Dafis
Geraint Davies
John Griffiths LLB
Val Feld
Tom Middlehurst

*Mae'r Cynulliad hwn:*

*- Yn gresynnu am weithredoedd yr Adran Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) yn comisiynu treialon cnydau a addaswyd yn enetig yn sir y Fflint a sir Benfro, yn enwedig o gofio polisi clir y Cynulliad ar gnydau GM*
*- Yn credu bod y gweithredoedd hyn yn ansensitif, ac o bosibl yn anghy frifol ar adeg o argyfwng amaeth a chynfyngiadau ar symud yng nghefn gwlad*
*- Yn galw ar y DETR a'r ffermwyr sy'n cymryd rhan i dynnu allan o'r arbrofion hyn cyn i'r cnydau gael eu plannu.*

*This Assembly:*

*- Regrets the actions of the Department of the Environment, Transport and the Regions in commissioning trials of genetically modified crops in Flintshire and Pembrokeshire, particularly in view of the clearly stated policy of the Assembly on GM crops*
*- Believes that these actions are insensitive and potentially irresponsible at a time of agricultural crisis and restrictions on movement in the countryside*
*- Calls on the DETR and the farmers involved to pull out of these experiments before the crops are planted.*